
IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 20.03.2019

Yn bresennol: Y Cynghorydd Peter Read (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Steve Collings ac Edgar Wyn Owen

Swyddogion: Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Alun M Roberts (Swyddog Gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

1. YMDDIHEURIADAU

Dim i'w nodi

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.

5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nôd o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am adnewyddu trwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a cholffarnau perthnasol.

Gwahoddwyd cynrychiolydd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais a rhoi gwybodaeth am gefndir y drosedd ac amgylchiadau personol yr ymgeisydd.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar, a gyflwynodd yr ymgeisydd yn ystod y gwrandawriad
- sylwadau ei gynrychiolydd / darpar gyflogwr
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS

Rhodddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

Derbyniodd yr ymgeisydd rybudd yn Rhagfyr 2012 oddi wrth Heddlu Gogledd Cymru ar un cyhuddiad o fod mewn meddiant delweddau pornograffig eithafol, yn dangos cyfathrach rywiol neu ryw geneuol (*oral sex*) rhwng person ac anifail, trosedd yn groes i adran 63(1)(7)(D) o'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008. Adroddwyd nad oedd gan yr ymgeisydd gollfarnau na rhybuddion eraill.

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â cholffarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.3 o'r Polisi yn cadarnhau bod "materion eraill i'w hystyried" yn cynnwys rhybuddion.

Amlygwyd bod rhan 7 o'r Polisi yn cyfarch troseddau rhyw ac anwedduster. Ym mharagraff 7.1, nodir y mabwysiadir agwedd lem tuag at ymgeiswyr sydd â cholffarnau am droseddau rhyw neu faterion eraill sy'n gysylltiedig â hynny oherwydd bydd gyrrwyr trwyddedig yn aml yn cludo teithwyr sy'n teithio ar eu pen eu hunain ac sy'n ddiarnedd. Nodir y bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod os oes collfarn neu fater i'w ystyried yn gysylltiedig â'r troseddau rhyw mwyaf difrifol. Nodir hefyd y bydd disgwyl i ymgeiswyr, mewn perthynas â throseddau rhyw eraill, ddangos cyfnod sylweddol heb unrhyw gollfarn na mater i'w ystyried cyn cymeradwyr cais. Er hynny, er nad yw paragraff 7.1 yn diffinio beth yw'r troseddau rhyw mwyaf difrifol mae paragraff 7.2 yn rhestru'r troseddau mwyaf difrifol sydd yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, meddu ar ffotograffau anweddus a pornograffi plant ac fe argymhellir gwrthod cais os oes collfarn neu faterion eraill i'w hystyried.

Daeth yr Is-bwyllgor i'r casgliad bod y rhybudd o 2012 yn ymwneud â throsedd o feddu ar ffotograffau anweddus, ac felly fe'i hystyriwyd fel mater o drosedd ryw ddifrifol gyda'r rhagdybiaeth o blaid gwrthod y cais o dan baragraff 7.2.

Adroddwyd bod yr Is-bwyllgor yn ymwybodol nad yw darpariaethau'r Polisi yn orfodol a bod modd gwyro oddi wrth yr argymhellion os yw ffeithiau'r cais yn cyfiawnhau hynny ac ystyriaeth arbennig wedi ei roi i baragraff 5.1 o'r polisi: difrifoldeb y drosedd, ei pherthnasedd, dyddiad cyflawni, dyddiad collfarn, eich oed adeg collfarnu, y ddeddfryd a roddwyd, a oes patrwm o ymddygiad troseddol, yn ogystal ag unrhyw ffactorau perthnasol eraill.

Prif ystyriaethau yn codi o'r drafodaeth:

- Bod y drosedd, er yn ei hanfod yn un ddifrifol, wedi arwain at rybudd yn hytrach na cholffarn.

- Bod y delweddau oedd ym meddiant yr ymgeisydd ganddo ar ddamwain, ar gyfrifiaduron yr oedd wedi eu prynu yn ail-law ac ar sustem rhannu ffeiliau. Er nad oedd yn ymwybodol sut y daeth y delweddau i'w feddiant cymerodd gyfrifoldeb amdanynt.
- Nid oedd yn ymwybodol o fodolaeth y delweddau hyd nes i'r Heddlu ddod a'r mater i'w sylw.
- Digwyddiad unigol. Nid oedd gan yr ymgeisydd gofnod o drosedd cyn nac ar ôl y digwyddiad.
- Roedd yr ymgeisydd yn ddeilydd tystysgrifau arf tanio a gwn saethu ers dros 30 mlynedd, gyda'r tystysgrifau wedi eu hadnewyddu yn 2017. Er na wyddai'r Is-bwyllgor ar ba sail y penderfynodd yr Heddlu ganiatáu'r trwyddedau hyn, nododd y cyfreithiwr bod gan yr Heddlu rymoedd eang wrth benderfynu trwyddedau o'r fath. Er nad yw'r prawf "addas a phriodol" yn berthnasol i drwyddedu drylliau, mae'n bur annhebygol y byddai'r Heddlu wedi caniatáu eu hadnewyddu oni bai eu bod o'r farn bod yr ymgeisydd yn gwbl addas a phriodol i fod mewn meddiant dryll.

Wedi ystyried yr holl faterion roedd yr Is-bwyllgor o'r farn y gellid cyfiawnhau gwyrto oddi wrth yr argymhelliad yn y Polisi yn yr achos yma. O dan yr amgylchiadau, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hur preifat.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd ac y byddai'r Uned Drwyddedu yn cysylltu i gadarnhau dogfennau'r drwydded.

6. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr B

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nôd o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd a'i ddarpar gyflogwr i ymhelaethu ar y cais a chynnig eglurhad am y drosedd. Gan nad oedd gan yr ymgeisydd bellach yr hawl i fudd-dal na chredyd pensiwn roedd angen swydd arno. Ategodd y darpar gyflogwr bod ganddo swydd 16 awr ar gyfer yr ymgeisydd a'i fod yn ymddiried ynddo i gyflawni'r gwaith, wedi ei adnabod ers dros 50 mlynedd.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd a'i gynrychiolydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar, a gyflwynodd yr ymgeisydd yn ystod y gwrandawriad

- sylwadau ei ddarpar gyflogwr
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS

Rhodddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol.

Derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn gan Lys Ynadon Gogledd Orllewin Cymru (Tachwedd 2017) am gyhuddiad o dwyll gan nad oedd hysbysu newid amgylchiadau fyddai yn effeithio ar ei hawl i fudd-dal (Chwefror 2014). Roedd y drosedd yn groes i adran 111A(1A) Deddf Gweinyddiaeth Nawdd Cymdeithasol 1992 a derbyniodd yr ymgeisydd ddirwyo £180.00 a gorchymyn i dalu costau o £85.00 a gordal dioddefwr o £30.00. Amlygwyd nad oedd ganddo gollfarnau na rhybuddion pellach

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â cholffarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod y Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Ystyriwyd paragraff 8.0 o'r Polisi sydd yn cyfarch troseddau o anonestrwydd. Mae paragraff 8.2 yn nodi y byddai cais fel arfer yn cael ei wrthod, neu drwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu os bydd collfarn yn erbyn yr ymgeisydd / deilydd y drwydded am drosedd a restrir, a bod y gollfarn yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais. Nodwyd bod y rhestr troseddau yn cynnwys, ymhlith eraill, twyll budd-dal.

Prif ystyriaethau yn codi o'r drafodaeth:

- Dim ond un gollfarn oedd gan yr ymgeisydd
- Roedd y drosedd o dwyll budd-dal yn ymweld yn disgyn ar waelod y sbectwm o ddifrifoldeb (oherwydd natur a swm y gosb). Cadarnhaodd yr ymgeisydd ei sefyllfa o fethu â datgan bod ei wraig yn derbyn tâl gan gymydog oedrannus am gymorth o amgylch y cartref. Nid oedd tystiolaeth bod yr ymgeisydd wedi gwneud budd ariannol sylweddol o ganlyniad i gyflawni'r drosedd. Mae'r ddedfryd cymharol isel a dderbyniodd am y gollfarn (dirwy, yn hytrach na charchar) yn cadarnhau barn yr Is-bwyllgor nad oedd y drosedd ymhlith yr achosion mwyaf difrifol o dwyll.
- Bod lefel uchel o ymddiriedaeth yn y gymuned tuag at yr ymgeisydd
- Bod ei ddarpar gyflogwr, yn awyddus iddo ymuno a'i gwmni i wneud gwaith gyrru tacsî.

Wedi ystyried yr holl faterion roedd yr Is-bwyllgor o'r farn y gellid cyfiawnhau gwyro oddi wrth yr argymhelliad yn y Polisi yn yr achos yma. O dan yr amgylchiadau, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hur preifat.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd ac y byddai'r Uned Drwyddedu yn cysylltu i gadarnhau dogfennau'r drwydded

Dechreuodd y cyfarfod am 10:15am a daeth i ben am 11 :45am